Cymru Ifanc
Young Wales

July 2016

[Cliciwch yma am y Gymraeg]

Welcome to the Young Wales newsletter

Young Wales is the participation work that is being run by Children in Wales and our partner organisations, and is funded by the Welsh Government.

Young Wales will ensure that children and young people are heard on issues that are important to them, and in particular that these issues are heard by the Welsh Government.

Each month we will bring you the latest news, including updates on the work that is being done by forums and other groups across Wales.

If you have anything you'd like to contribute, please email info@childreninwales.org.uk.

Contents

1. New round of apprenticeships in digital technology
2. UN Committee concluding observations on children's rights in the UK
3. Chair of Trustee Board, Children in Wales
4. Young Voices

New round of apprenticeships in digital technology

Young people with a passion for digital technology are being urged to apply for a two year apprenticeship scheme with Natural Resources Wales in Bangor, north

Wales.

The Cyfoeth IT (Information Technology) apprenticeship scheme, now in its third year, is the first of its kind in the public sector in Wales. It gives college and sixth form leavers a chance to earn a wage, gain on the job experience and work towards an industry recognised qualification by Microsoft.

They are currently looking for young people, who are considering a career in the evolving world of digital technology, to join their award winning IT department in Bangor to learn a wide-range of tasks such as programming and engineering. They could get involved in anything from developing mobile apps to helping set up networks for offices.

Find out more here.

UN Committee concluding observations on children's rights in the UK

The UN Committee on the Rights of the Child has published their Concluding Observations on the Fifth Periodic Report of the UK.

The Concluding Observations report makes recommendations on improving children's rights across the UK following evidence from the UK State Party, as well as acknowledging and welcoming where things are going well for children's rights.

Amongst their observations, the Committee has expressed concern that fiscal policies in the UK have led to increasing inequality in children's ability to enjoy their rights, and the report recommends reallocation of resources to ensure the implementation of children's rights.

The Committee calls for investment in children's mental health services, and collection of data on mental well-being.

Concern about the increase of children in care is expressed and the Committee recommends appropriate assistance to parents and legal guardians including kinship carers.

Find out more here.

Chair of Trustee Board, Children in Wales

Children in Wales is the national umbrella organisation for those working with children, young people and families in Wales and its work is underpinned by the United Nations Convention on the Rights of the Child. Following the retirement of John Williams OBE, Children in Wales is seeking to recruit a new Chair for the Trustee Board.

The Chair is responsible to the Trustee Board and to the membership of the organisation for its governance and strategic direction. Applicants should have experience of strategic leadership at a senior level within a large organisation, in

the academic, statutory or not-for-profit sector. Experience in public office and of a Trustee Board or Management Committee of a similar organisation is highly desirable. Applicants must have a demonstrable commitment and interest in children's rights. The Chair should be in a position to be able to speak independently on behalf of Children in Wales.

Visit the Children in Wales website for more information.

Young Voices

2 to 4 August 2016

- Are you a care-experienced young person aged 14-19 years?
- Do you have an interest in drama?
- Would you like to learn new skills and discover new ways of having your voice heard?

Join our very first Young Voices summer school!

Run in association with Voices from Care, this summer school is free of charge and will take place from 10 to 4 each day, culminating with an informal sharing of work on the final afternoon.

If you would like to take part, contact Amber at Voices from Care, amber@VFCC.org.uk or call 029 2045 1431, by Friday 29 July.

Cymru Ifanc
Young Wales

Gorffennaf 2016

Croeso i gylchlythyr Cymru Ifanc

Gwaith cyfranogi yw Cymru Ifanc wedi'i gynnal gan Blant yng Nghymru a'n sefydliadau partner, a chaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Bydd Cymru Ifanc yn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed am faterion sy'n bwysig iddynt hwy, a bod y materion hyn yn cael eu clywed gan Lywodraeth Cymru'n arbennig.

Fesul mis byddwn yn dod â'r newyddion diweddaraf i chi, yn cynnwys diweddariadau am y gwaith sy'n cael ei wneud gan fforymau a grwpiau eraill ledled Cymru.

Os hoffech gyfrannu unrhyw beth, e-bostiwch info@childreninwales.org.uk.

Contents

1. Cylch newydd o brentisiaethau mewn technoleg ddigidol
2. Sylwadau cloi Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar hawliau plant yn y DU
3. Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, Plant yng Nghymru
4. Lleisiau Ifainc

Cylch newydd o brentisiaethau mewn technoleg ddigidol

Anogir pobl ifanc gyda brwdfrydedd dros dechnoleg ddigidol i ymgeisio am gynllun prentisiaeth dwy flynedd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ym Mangor.

Mae cynllun prentisiaeth Cyfoeth TG (Technoleg Gwybodaeth), sydd nawr yn ei drydedd flwyddyn, y cyntaf o'i fath yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr coleg a chweched dosbarth i ennill cyflog a phrofiad a chymhwyster, tra'n gweithio tuag at gymhwyster gan Microsoft.

Maen nhw'n chwilio am bobl ifanc sy'n ystyried gyrfa ym myd technoleg ddigidol, i ymuno â'i hadran TG sydd wedi ennill gwobrau, i ddysgu ystod eang o dasgau fel rhaglennu a pheirianneg. Gallant fod yn ymwneud ag unrhyw beth o ddatblygu apiau symudol i helpu sefydlu rhwydweithiau i swyddfeydd.

Canfyddwch ragor yma.

Sylwadau cloi Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar hawliau plant yn y DU

Mae Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn wedi cyhoeddi eu Sylwadau Cloi ar Bumed Adroddiad Cyfnodol y DU.

Mae adroddiad y Sylwadau Cloi yn gwneud argymhellion ar wella hawliau plant ledled y DU gan ddilyn tystiolaeth gan Barti Gwladwriaeth y DU, ynghyd â chydnabod a chroesawu lle mae pethau'n mynd ar gyfer hawliau plant.

Ymysg eu sylwadau, mae'r Pwyllgor wedi mynegi pryder fod polisïau cyllidol yn y DU wedi arwain at anghydraddoldeb cynyddol yng ngallu plant i fwynhau eu hawliau. Argymhella'r adroddiad ailddyrannu adnoddau i sicrhau gweithredu hawliau plant.

Mae'r Pwyllgor yn galw am fuddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd meddwl plant, a chasglu data ar les meddyliol.

Mynegir pryder am y cynnydd mewn plant mewn gofal. Argymhella'r Pwyllgor gymorth priodol i rieni a gwarcheidwaid cyfreithiol gan gynnwys gofalwyr carennydd.

Canfyddwch ragor yma.

Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, Plant yng Nghymru

Plant yng Nghymru yw'r sefydliad trosfwaol cenedlaethol ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru, a seilir ei waith ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Nawr bod John Valentine Williams OBE ar fin ymddeol, ar ddiwedd ei dymor o wasanaeth, mae Plant yng Nghymru yn awyddus i recriwtio Cadeirydd newydd ar gyfer Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Mae'r Cadeirydd yn atebol i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ac i aelodau'r sefydliad am ei lywodraethiant a'i gyfeiriad strategol. Dylai fod gan ymgeiswyr brofiad o arweinyddiaeth strategol ar lefel uwch mewn sefydliad mawr, boed hynny yn y sector academaidd, statudol neu nid-er-elw. Mae profiad mewn swydd gyhoeddus ac ar Fwrdd Ymddiriedolwyr neu Bwyllgor Rheoli sefydliad tebyg i'w ddymuno'n fawr. Rhaid bod gan ymgeiswyr ymrwymiad gweladwy a diddordeb mewn hawliau plant. Dylai'r Cadeirydd fod mewn sefyllfa i fedru siarad yn annibynnol ar ran Plant yng Nghymru.

Ewch i wefan Plant yng Nghymru am ragor o wybodaeth.

Lleisiau Ifainc

2 i 4 Awst 2016

- *A ydych yn unigolyn ifanc 14-19 oed sydd wedi profi gofal?*
- *A oes gennych ddiddordeb mewn drama?*
- *A hoffech ddysgu sgiliau newydd a darganfod ffyrdd newydd i'ch llais gael ei glywed?*

Ymunwch â'n hysgol haf Lleisiau Ifainc cyntaf erioed!

Wedi'i rhedeg ar y cyd â Voices from Care, mae'r ysgol haf hon am ddim. Bydd yn cael ei chynnal rhwng 10 hyd 4 bob dydd, gan ddod i benllanw gyda rhannu gwaith yn anffurfiol ar y prynhawn olaf.

Os hoffech gymryd rhan, cysylltwch ag Amber o Voices from Care, amber@VFCC.org.uk neu ffoniwch 029 2045 1431, erbyn Dydd Gwener 29 Gorffennaf.